

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

BODWRDA (BODWRDDA), teulu Bodwrda, Sir Gaernarfon

Hen deulu yn Sir Gaernarfon, yn disgyn o Ddrahiarn Goch, arglwydd Cymydmaen.

Mabwysiadwyd y cyfenw gan HUGH GWYN, siryf sir Gaernarfon, 1605 (mab John Wyn, siryf 1584). Aeth tri o ddeuddeg plentyn Hugh Gwyn Bodwrda i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt, lle y dewiswyd brawd ei wraig, sef **Owen Gwynn**, yn bennaeth yn 1612.

Aeth WILLIAM BODWRDA (1593 - 1660) yno yn 1612 (ar ôl graddio yn Rhydychen) a chymryd ei M.A. yn 1615, a'i B.D. yn 1623; a bu'n gymrawd o'r coleg hyd nes ei fwrw allan am na dderbyniai'r 'Covenant' yn 1644. Bu'n dal amryw o fywiolaethau'r coleg yn Lloegr, ond fe'u cymerwyd oddi arno gan y Senedd yn 1646; yn 1651 rhoddwyd iddo fywoliaeth Aberdaron gan ei goleg (a'i cawsai gan yr **archesgob John Williams**).

Gadawodd GRIFFITH BODWRDA, y trydydd mab, Gaergrawnt cyn graddio. Dyfarnodd Ty'r Arglwyddi, yn 1626, nad ydoedd ef yn euog o ymyrryd, yn ei swydd o is-siryf sir Gaernarfon, â hawliau seneddol **Lewes Bayly**, esgob Bangor.

Daeth HENRY BODWRDA, pedwerydd mab Hugh Gwyn Bodwrda, yn gymrawd o Goleg S. Ioan a bu'n athro ysgol yn Lloegr; cafodd ef a'i frawd William gydran mewn cymynrodd gan Feistr y Coleg, sef **Owen Gwynn**.

Gwleidyddwr a ' cheisiwr swyddau ' ydoedd GRIFFITH (neu GRIFFIN) BODWRDA (1621 - 1679), trydydd mab John Bodwrda (mab hynaf Hugh Gwyn Bodwrda a siryf sir Gaernarfon 1629), a'i wraig Margaret, merch **John Griffith**, Cefnamwlich. Bu Griffith yn ysgol Amwythig, ac yn 1640 aeth i Goleg S. Ioan, Caergrawnt (gan ddilyn esiampl ei frodyr John a Hugh) i fod dan ofal ei ewythr William Bodwrda; fe'i cymeradwywyd gan ei gar **Robert Wynn**, Bodysgallen, fel y 'nearest in relation of kindred unto will and the founder' am un o'r ysgoloriaethau a sefydlasid gan **Dr. John Gwyn**. Gadawodd heb raddio ac fe'i dewiswyd, trwy gymorth **John Glynn**e, cofiadur Llundain, i'r ' Wine Licence Office ' ac yn ' Receiver of First fruits ' - y ddwy swydd gyda'i gilydd yn werth £500 y flwyddyn. Ymaelododd yn Lincoln's Inn yn 1649. Fe'i dewiswyd yn aelod seneddol dros Biwmares yn 1656 i ail Senedd Cromwell, a bu'n cymryd rhan bwysig yn y dadleuon yno; yr oedd o blaid yr ' Humble Petition and Advice ' ond yn awgrymu y dylid cwtogi ar awdurdod y Diffynnwr mewn achosion ariannol a chyfreithiol; bu iddo hefyd alw sylw at y pwysau ariannol a ddodid ar ei etholwyr ef ei hun. Gwnaeth ei araith fwyaf nodedig wrth apelio am ryddid crefyddol pan oeddid yn ymosod ar James Nayler, y Crynwr a'i galwai ei hun yn Fesela (12 Rhagfyr 1656). Y flwyddyn honno cafodd ei wneuthur yn geidwad cofysgrifau llys y 'Common Pleas.' Fe'i dychwelwyd yn 1659 i gynrychioli Biwmares yn Senedd Richard Cromwell; yn honno dangosodd ei fod yn ffafrio teitl y Diffynnwr newydd, bu'n pledio dros gael polisi tramor cryf, a dymunai hefyd ddifreinio Aberhonddu o achos iddi gamethol yn yr etholiad diwethaf. Etholwyd ef i Senedd y Confensiwn, a bu'n aelod o'r ddirprwyiaeth a ddewiswyd i hebrwng Siarl II adref o Baris (26 Ebrill 1660); troes yn gyhuddwr yn y praw ar leiddiaid y brenin; a rhoddwyd iddo'r gwaith o dynnu castell Caernarfon i lawr. Yn ystod y Tân Mawr rhoed ef i ofalu am y bobl a gollodd eu cartrefi yn Islington. Er bod Arlington, yr ysgrifennydd gwladol yn ei gynorthwyo, methodd â chael ei ddewis yn gomisiynydd tollau'r 'Excise' yn Llundain yn 1668; ychydig yn ddiweddarach, fodd bynnag (c. 1672), rhoddwyd iddo swydd yn y Trysordy yn Nulyn a bu yno hyd ei farw yn 1679. Bum mlynedd cyn iddo farw cawsai ganiatâd y Goron i brynu tir yn agos i'r castell gyda'r amcan o'i ddatblygu. Yr oedd yn un o ynadon heddwch sir Gaernarfon, ond gan ei fod gymaint yn Llundain a Dulyn ni allai wasanaethu ond yn anaml iawn. Ymddengys fod ei dad hefyd o blaid y Senedd (*Cal. Ctte. for Adv. of Money*, iii, 1245, *Cal. Wynn Papers*, 1811).

Bu ei frawd HUGH, yntau hefyd o Lincoln's Inn, yn siryf sir Gaernarfon yn 1686.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 168

Baker, *The History of St. John's College*, i, 205, 221, 225, 341, 492, 326

Venn, *Alumni Cantabrigienses*, i, 172

T. Richards, *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), 144

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1948-9, 69-70, a'r gweithiau a enwir yno

Baker, *The History of St. John's College*, i, 205, 221, 225, 341, 492, 526

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654â€“1662* (1923), 16, 304-5, 321, 335

A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops*(1929), 6

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895), 4-5

Burton, *Diary of Thomas Burton, Esq. member in the Parliaments of Oliver and Richard Cromwell, from 1656 to 1659 now first published from the original autograph manuscript* (1828), i, 119-21, 160, 365; ii, 37, 51, 55, 226-7, 304, 420-3; iii, 68, 135-6, 246, 249, 367, 444; iv, 158, 406, 422, 437

*The Journals of the House of Commons*, viii, 27

*The Journals of the House of Lords*, iii, 546, 553-4

T. B. Howells, *A Complete Collection of State Trials* â€¦ (1816â€“98), v, 1084-5

*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1666-8, 1672-9

*Calendar of the Committee for Advance of Money, 1642â€“56* (1888), iii, 1245

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642â€“1660* (London 1911), i, 1183, 1246-7; ii, 1084

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, 11th R., ii, 175

Petition of John Bodurda of Bodurda in co. Carnarvon, esq., to the Archbishop of Canterbury concerning the parish of Aberdaron and the tithes therefromCarreglwyd Estate Records, Series I/1628, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Exemplification of the bargain and sale of the manor and castle of Hawarden otherwise Harde, co. Flint; Bettisfield Estate Record 1636, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Cynfeirdd Llyn, 1500-1800* (Pwllheli 1905), 219-22

Darllen Pellach

Dafydd Ifans, 'Wiliam Bodwrda (1593-1660)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyfrol XIX (1975-76) **rh.1, 88-102, rh.3, 300-310**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732667

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

- PDF
- Argraffu
- Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dodd, A. H., (2004). BODWRDA (BODWRDDA), teulu Bodwrda, Sir Gaernarfon. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BODW-RDA-1600

Clipwrdd

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu



LLYFRGELL  
THE NATION

